Canllawiau talu ac anfonebu

Cyflwyniad

Er mwyn sicrhau y gallwn brosesu taliadau cyn gynted â phosibl, dylai cyflenwyr ddilyn y canllawiau isod wrth gyflwyno anfonebau.

Amodau talu

Nod Dŵr Cymru Welsh Water yw talu pob anfoneb nad oes cwestiwn yn ei chylch cyn pen 30 diwrnod ar ôl iddi ddod i law mewn ffordd ddilys yn unol â'n prosesau ar gyfer cyflwyno anfonebau a bennir isod, dim ots beth yw gwerth yr anfoneb na phwy yw'r talai, ac yn unol â'r amodau talu safonol a gyhoeddwyd. Mewn ambell i achos, mae'n bosibl y byddwn wedi cytuno ar delerau talu gwahanol o dan ein contractau â chyflenwyr, ac os felly, y telerau cymeradwy hynny fydd mewn grym. Yn yr achosion hyn, nod Dŵr Cymru Welsh Water yw talu anfonebau nad oes cwestiwn yn eu cylch cyn pen yr amserlen talu a bennwyd yn y contract penodol o dan sylw.

Anfonebau dilys

Er mwyn galluogi Dŵr Cymru Welsh Water i wneud taliadau yn unol â'r amodau a'r telerau cymeradwy, dylai cyflenwyr sicrhau bod eu hanfonebau:

- Wedi eu cyfeirio'n gywir at enw cwmni Dŵr Cymru Welsh Water a nodir ar yr archeb brynu;
- Yn cael eu hanfon yn enw cwmni'r cyflenwr a nodir ar yr archeb brynu;
- Yn cael eu hanfon at y cyfeiriad anfonebu cywir a nodir ar yr archeb brynu, neu'n cael eu hanfon trwy e-bost fel atodiad e-bost mewn fformat .pdf at supplier.invoices@dwrcymru.com;
- Yn dyfynnu rhif yr archeb brynu (fformat 35********, 38******** neu 451*******);
- Yn darparu digon o fanylion i'r anfoneb gael ei gwirio a'i dilysu yn erbyn yr archeb brynu;
- Yn nodi'r symiau cywir ar gyfer y nwyddau/gwasanaethau a archebwyd ac a gyflenwyd/darparwyd yn unig;
- Yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill a bennwyd yn y contract.

Gellir dychwelyd anfonebau nad ydynt yn cydymffurfio â'r uchod i'r cyflenwyr i'w cywiro. Caiff ymrwymiad Dŵr Cymru Welsh Water i dalu, a bennir yn y ddogfen hon, ei gohirio am y cyfnod y mae'n ei gymryd i gyflwyno'r anfoneb gywir.

Cwestiynau ynghylch anfonebau / manylion cysylltu

Bydd yr aelod unigol o staff a enwir ar yr archeb brynu fel y “ceisiwr” (neu enwebai'r ceisiwr) yn hysbysu'r cyflenwr am unrhyw anfonebau y mae cwestiwn yn eu cylch ynghyd â'r rhesymau. Ond os bydd cyflenwr yn profi unrhyw **oedi** gyda thaliad, dylai gysylltu â Thîm Cyfrifon Taladwy Dŵr Cymru Welsh Water a fydd yn dilysu bod yr anfoneb wedi dod i law ac yn cadarnhau ei statws. Os oes cwestiwn ynghylch yr anfoneb, yna bydd gofyn i'r cyflenwr gysylltu â'r "ceisiwr" a enwir ar yr archeb brynu. Ar ôl i rywun gysylltu â nhw, bydd y "ceisiwr" yn ymdrechu i ddatrys y mater yn brydlon.

Os oes gan gyflenwr broblem gyda thaliad y mae wedi'i dderbyn, dylent gysylltu â'r Tîm Cyfrifon Taladwy trwy e-bostio; accounts.payable@dwrcymru.com

Dyddiadau prosesu taliadau

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn prosesu taliadau o leiaf unwaith yr wythnos, bob dydd Mercher fel rheol (sy'n gallu newid oherwydd gŵyl banc neu amodau eithriadol)

Mae gan y cwmni'r disgresiwn i brosesu taliadau ar ddyddiadau ychwanegol.

Taliadau electronig

Gall cyflenwyr sy'n derbyn taliad gyda siec ar hyn o bryd newid eu dull talu i BACS trwy e-bostio'r Tîm Cyfrifon Taladwy ar; accounts.payable@dwrcymru.com